

Trawsnewid ADY

Gwybodaeth i Lywodraethwyr



Beth sy'n Newid?

- ▶ Mae Llywodraeth Cymru eisiau trawsnewid disgwyladau, profiadau a deilliannau i blant a phobl ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). I wneud hyn, maent wedi datblygu rhaglen drawsnewid ADY, fydd yn trawsnewid y systemau gwahanol ar gyfer anghenion addysg arbennig (AAA) mewn ysgolion ac anawsterau a/neu anableddau dysgu (AAD) mewn addysg bellach, i greu system unedig i gefnogi dysgwyr o 0 i 25 oed ag ADY.
- ▶ O Fedi 2021 ymlaen, fe ddaw system newydd symlach a mwy ymatebol o gwrdd ag anghenion plant a phobl ifanc ag anghenion arbennig i rym.

Y Weledigaeth

Mae Llywodraeth Cymru yn ymdrechu i gyflwyno system addysg hollol gynhwysol i ddysgwyr Cymru. Byddai hon yn system lle mae anghenion yn cael eu hadnabod yn gynnar, eu trin yn gyflym a lle cefnogir yr holl ddysgwyr i gyrraedd eu potensial.

Mae eisiau i gynllunio i fod yn hyblyg ac ymatebol, i weithwyr proffesiynol fod yn fedrus a hyderus wrth adnabod anghenion a rhoi strategaethau ar waith i helpu dysgwyr i oresgyn eu rhwystrau i ddysgu.

Maent yn credu y dylai'r dysgwr fod wrth graidd popeth a wnawn ac y dylent hwy a'u rhieni a'u gofalwyr fod yn bartneriaid cyfartal yn eu dysgu. (Agwedd sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn)

Y weledigaeth ddiwygio: diwygio ehangach

Mae diwygiadau ADY yn rhan hanfodol o ddiwygio addysgol ehangach i sicrhau fod pob plentyn a pherson ifanc yn gallu cyrchu addysgu o ansawdd uchel a chyfle cyfartal waeth beth fo'u cefndir na'u hamgylchiadau.

Cwricwlwm

Galluogi disgyblion gydag ADY i gyrchu'r cwricwlwm trwy ddeall eu hanghenion ac addasu agweddau addysgu. **Donaldson**

Asesu

Dylai adnabod **ADY** gael ei adeiladu i mewn i'r agwedd gyffredinol tuag at fonitro cynnydd a datblygiad pob disgybl.

Safonau
Proffesiynol

Dylai safonau addysgu i ddisgyblion ag **ADY** a chynnydd a wnaed gan ddisgyblion gael eu hystyried fel rhan o drefniadau mantoli'r ysgol.

Fframwaith
Categorioidio

Canolbwynt clir ar gynnydd pob disgybl – cefnogaeth **ADY** yn hollbwysig i berfformiad ysgol.

Rhaglen Trawsnewid ADY

Beth yw Rhaglen Trawsnewid ADY?

- ▶ Rhaglen i drawsnewid yr addysg a'r gefnogaeth a gaiff plant a phobl ifanc gydag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), i wella eu profiad addysgol a'u helpu i wireddu eu potensial.
- ▶ Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) yw conglfaen y rhaglen – ond yn ychwanegol at newidiadau yn y gyfraith, mae newidiadau mewn diwylliant ac arferion, fydd yn cyflwyno'r deilliannau gwell i ddysgwyr sydd yn nod i ni.
- ▶ Mae trawsnewid ADY yn elfen sylfaenol o ddiwygio addysg yn ehangach – os cawn hyn yn iawn i ddysgwyr ADY, fe fydd yn iawn i **bob** dysgwr.

Rhaglen Trawsnewid ADY Parhad

Mae 5 prif thema i raglen trawsnewid ADY . I grynhoi, dyma hwy:

- ▶ 1. Deddfwriaeth a chanllawiau statudol – y broses o ddatblygu'r fframwaith deddfwriaethol, gan gynnwys y Bil, rheoliadau a'r Côd ADY newydd;
- ▶ 2. Gweithredu/ cefnogi'r cyfnod trosiannol – gweithgareddau i gefnogi partneriaid i baratoi, cynllunio a rheoli gweithredu a throsi i'r system newydd;
- ▶ 3. Datblygu'r gweithlu – wedi'i anelu at dair lefel: datblygu sgiliau craidd i bob ymarferwr sy'n cefnogi dysgwyr gydag ADY; datblygu sgiliau uwch trwy ddatblygu rôl y Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADY); a datblygu sgiliau ychwanegol i wasanaethau cefnogi arbenigol a ddarperir gan yr awdurdod lleol;
- ▶ 4. Codi ymwybyddiaeth – gweithgareddau i ddwyn i mewn randdeiliaid am eu dyletswyddau deddfwriaethol newydd, ac i esbonio a hyrwyddo'r system a'r hawliau mae'n roi i blant, pobl ifanc a rhieni; a
- ▶ 5. Cefnogi polisi – gan gynnwys datblygu adnoddau i helpu pawb yn y system i ddeall y dystiolaeth o ran arferion gorau, yr hyn y gellir ei ddisgwyl o ymyriadau, yr ymyriadau sy'n debygol o fod yn fwyaf effeithiol, a rôl gweithwyr proffesiynol i helpu i sicrhau disgwyliadau realistig a defnyddio adnoddau yn effeithiol.

Cefndir

- ▶ Cafodd y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg y Cydsyniad Brenhinol ym mis Ionawr 2018. Crëodd y Bil y fframwaith deddfwriaethol i wella cynllunio a chyflwyno darpariaeth dysgu ychwanegol, trwy agwedd sy'n canoli ar yr unigolyn er mwyn adnabod anghenion yn gynnar, rhoi cefnogaeth a monitro effeithiol ar waith ac addasu ymyriadau er mwyn sicrhau eu bod yn cyflwyno'r deilliannau a fynnir. Cyflwynwyd y Bil i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Rhagfyr 2016.
- ▶ Cyhoeddwyd Cod drafft ym mis Rhagfyr 2018.
- ▶ Mae'r Cod drafft yn cael ei adolygu ar hyn o bryd yn dilyn ymgynghoriad a chyhoeddir Cod terfynol yng Ngwanwyn 2021.

Pam fod Pethau'n Newid?

- ▶ Mae angen system addysg hollol gynhwysol i bob dysgwr, gyda dyheadau uchel a gwell deilliannau i bawb
- ▶ Mae'r system bresennol yn awr dros 30 oed ac nid yw bellach yn addas at y diben
- ▶ Mae angen agwedd fwy hyblyg ac ymatebol gyda mwy o ymwneud gan rieni, gofalwyr, plant a phobl ifanc trwy agweddau sy'n canoli ar yr unigolyn, gan osod anghenion, barn, dymuniadau a theimladau'r dysgwr wrth galon y broses
- ▶ Mae angen gwell cydweithredu rhwng asiantaethau, fel bod anghenion yn cael eu hadnabod yn gynt a bod y gefnogaeth iawn yn cael ei roi yn ei le.

Pryd mae'n newid?

- ▶ Bwriada Llywodraeth Cymru osod y Cod terfynol a'r rheoliadau gerbron Senedd Cymru i'w cymeradwyo yng Ngwanwyn 2021.
- ▶ Disgwylir y bydd y system ADY newydd yn fyw ym mis Medi 2021. Bydd y cyfnod gweithredu yn para am dair blynedd tan haf 2024, ac yn ystod y cyfnod hwn bydd datganiadau AAA presennol, cynlluniau addysg unigol, a chynlluniau dysgu a sgiliau yn cael eu troi yn gynlluniau datblygu unigol (CDU). Gwneir hyn trwy agwedd orfodol fesul dipyn, ar sail carfanau oedran penodol. Yn ystod yr amser hwn, bydd y system ADY yn gweithredu ochr yn ochr â'r system AAA.

Negeseuon Allweddol

- ▶ Bydd y term Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn cymryd lle'r termau Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) a bydd yn gymwys bellach i rai 0 – 25 oed
- ▶ O Ionawr 2021 ymlaen, bydd angen i bob ysgol fod â Chydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADY) a fydd yn gyfrifol am gydgordio prosesau ADY'r ysgol ar lefel strategol. Bydd CADY yn cymryd lle'r cydlynwyr anghenion addysgol arbennig (CAAA) presennol.
- ▶ Bydd cynlluniau datblygu unigol (CDU) yn cymryd lle'r amrywiaeth sy'n bodoli ar hyn o bryd o gynlluniau statudol ac anstatudol ar gyfer dysgwyr o oedran ysgol gorfodol ac iau, a'r rhai sydd dros oedran ysgol gorfodol sydd mewn ysgolion neu mewn addysg bellach.

Negeseuon Allweddol

Mwy o gydweithio

- ▶ Mae ffocws ar fwy o gydweithredu rhwng pob asiantaeth sy'n ymwneud â chefnogi plant a phobl ifanc. Lle mae awdurdod lleol yn gofyn am help neu wybodaeth gan gorff arall wrth arfer unrhyw rai o'i swyddogaethau ADY, dylai'r corff hwnnw gydmffurfio â'r cais.

Hawliau apelio clir a chyson

- ▶ Bydd gan bob plentyn, eu rhieni a phobl ifanc hyd at 25 oed hawl i apelio at y Tribiwnlys Addysg yn erbyn penderfyniadau a wnaed gan awdurdod lleol yng nghyswllt eu ADY neu eu CDU. Rhaid i awdurdodau lleol ddarparu mynediad at wasanaethau eiriol annibynnol.

Osgoi anghytundeb a datrys anghydfod yn gynt

- ▶ Rhaid i awdurdodau lleol wneud trefniadau i osgoi a datrys anghydfod. Os cyfyd anghytundeb, dylai trefniadau awdurdodau lleol sicrhau eu bod yn cael eu datrys cyn gyntad ag sydd modd ac ar y lefel fwyaf lleol

Negeseuon Allweddol

- ▶ Bydd plant, pobl ifanc, rhieni/gofalwyr yn cymryd mwy o ran yng nghreu a chynnal CDU. Rhaid i awdurdodau lleol, ysgolion a cholegau roi i blant, pobl ifanc ac eraill wybodaeth a chyngor am ADY a'r system newydd, gan sicrhau eu bod ar gael i bawb sydd eu hangen.
- ▶ Arfer sy'n Canoli ar yr Unigolyn yw'r agwedd sylfaenol at gefnogi a gwella cyfranogiad. Proffiliau Un Tudalen yw sylfaen cefnogaeth addysg wedi ei bersonoli. Maent yn casglu gwybodaeth allweddol am ddysgwyr fel bod modd ei rannu a'i ddeall yn gyflym.

Diffiniad a Graddfeydd Amser

Mae gan rywun anghenion dysgu ychwanegol os yw ef neu hi ag anhawster neu anabledd dysgu (boed yr anhawster neu anabledd dysgu'n deillio o gyflwr meddygol neu beidio) sy'n galw am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol

Mae gan blentyn o oedran ysgol gorfodol neu rywun hŷn anhawster neu anabledd dysgu os yw ef neu hi — ag anhawster sylweddol yn fwy wrth ddysgu na'r mwyafrif o rai eraill o'r un oedran, neu ag anabledd yn ôl Deddf Cydraddoldeb 2010

Yn unol â'r Cod drafft, bydd y graddfeydd amser canlynol yn berthnasol:

- ▶ Bydd gan ysgolion 35 diwrnod ysgol i benderfynu a oes gan blentyn anghenion dysgu ychwanegol y mae angen darpariaeth ddysgu ychwanegol ar eu cyfer, a datblygu Cynllun Datblygu Unigol lle bo hynny'n briodol
- ▶ Bydd gan yr Awdurdod Lleol 7 wythnos calendr i ailystyried penderfyniad ar gais rhiant neu ofalwr
- ▶ Bydd gan yr Awdurdod Lleol 12 wythnos calendr i adnabod yr Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol ar gais yr ysgol. Bydd hynny'n digwydd os yw'r ysgol yn credu nad yw'n gallu adnabod anghenion cymhleth na chynnig y Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol ar eu cyfer

Beth mae'r diwygiadau yn olygu i Lywodraethwyr?

- ▶ Rhaid iddynt gadw'r Cod mewn cof a dylent oruchwylio gweithredu'r diwygiadau a rhoi cefnogaeth strategol i'r pennaeth
- ▶ Rhaid iddynt sicrhau y dynodir athro neu athrawes c/gymwys fel CADY o Ionawr 2021 ymlaen – rôl statudol newydd
- ▶ Rhaid iddynt gydweithredu'n gyffredinol gyda'r awdurdod lleol gan gynnwys datblygu darpariaeth leol a phan enwir yr ysgol mewn cynllun datblygu unigol (CDU).
- ▶ Rhaid iddynt ofalu bod trefniadau ar gael i ysgolion er mwyn cefnogi disgyblion ysgol â chyflyrau meddygol (Canllawiau ar Gefnogi Anghenion Gofal Iechyd).

Beth mae'r diwygiadau yn olygu i Lywodraethwyr?

- ▶ Sefydlu'r trefniadau i dderbyn plant anabl, y camau a gymerir i atal plant anabl rhag cael eu trin yn llai ffafriol nag eraill, y cyfleusterau a ddarperir i helpu mynediad plant anabl, a'u cynlluniau hygyrchedd.
- ▶ Os bydd llywodraethwyr yn deall gweithredu'r diwygiadau ac yn ymwneud â hwy, bydd hyn yn helpu i ofalu bod ysgolion yn gweithredu yn ôl ysbryd y Cod ac yn cyflawni eu dyletswyddau orau y gallant. Mae'n arfer da penodi aelod o dîm y Llywodraethwyr fel yr arweinydd ADY.
- ▶ Wrth oruchwylio gweithredu'r diwygiadau, dylai'r corff llywodraethol ystyried eu hagwedd strategol at gwrdd ag ADY yng nghyd-destun yr holl adnoddau sydd ar gael, gan gynnwys unrhyw adnoddau sydd wedi eu targedu at grwpiau penodol, megis premiwm y disgybl. (mapio darpariaeth)


Beth mae'n rhaid i chi fel Llywodraethwyr ei ystyried?

- ▶ Cynllunio a mynychu sesiynau codi ymwybyddiaeth
- ▶ Pa aelod o'r staff yw'r CADY a beth yw gofynion y rôl?
- ▶ A ydych chi fel llywodraethwyr yn ymwybodol o'r isod:
- ▶ Faint o ddisgyblion yn yr ysgol a nodwyd fel rhai ag AAA/ADY? (y gofrestr AAA/ADY)
- ▶ Wyddoch chi pa fath o ADY sydd ym mhoblogaeth yr ysgol?
- ▶ Sut mae'r ysgol yn gwneud darpariaeth ar gyfer y disgyblion hynny?
- ▶ Beth yw'r deilliannau i ddisgyblion ADY?
- ▶ Fedrwn chi weld y prosesau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar waith e.e. Gweld proffil un tudalen, edrych ar Cynllun Datblygu Unigol ac ystyried pa mor effeithiol ydynt wrth gwrdd ag anghenion y disgyblion?

Beth mae'n rhaid i chi fel Llywodraethwyr ei ystyried?

- ▶ A gaiff y diwygiadau ADY eu hystyried fel maes ar Gynllun Datblygu'r Ysgol?
- ▶ A yw pawb yn ymwybodol o pwy yw'r Llywodraethwr ar gyfer ADY?
- ▶ Sut yr ydym ni fel llywodraethwyr yn gwybod beth yw ansawdd yr addysgu ar draws yr ysgol / adrannau / grwpiau blwyddyn i'n disgyblion ADY?
- ▶ A yw CDY yn cynnwys blaenoriaethau a meini prawf llwyddiant priodol er mwyn sicrhau bod y safonau proffesiynol, sydd yn diffinio arfer da mewn ADY, wedi eu gwreiddio yng ngwaith yr ysgol?
- ▶ A all y Llywodraethwyr drafod arolwg parodrwydd yr ysgol a chynllun gweithredu'r clwstwr a ddaw yn sgîl hyn?

Sut mae ysgolion yn cael eu cefnogi i baratoi am y newidiadau hyn?



Beth sydd wedi digwydd hyd yn hyn?

- ▶ Mae ysgolion wedi bod yn gweithio mewn clystyrau, gan gydweithio wrth baratoi ar gyfer cyflwyno'r Ddeddf. Mae pob clwstwr wedi datblygu cynllun gweithredu a chael mwy o arian drwy Grant Gweithredu Llywodraeth Cymru er mwyn canolbwyntio ar ddatblygu'r gweithlu
- ▶ Mae gan bob clwstwr Swyddog Arweiniol dynodedig. Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd i gefnogi Cydlynwyr Anghenion Addysg Ychwanegol gyda hyfforddiant a datblygu'r gweithlu.
- ▶ Mae pob Awdurdod Lleol wedi dynodi Swyddog Arweiniol Trawsnewid i ddatblygu prosesau ac ymarfer lleol ar gyfer gweithredu'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Cod
- ▶ Mae pob Awdurdod Lleol wedi dynodi Swyddog Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar i hwyluso pontio llwyddiannus rhwng lleoliad cyn-Ysgol ac Ysgol gynradd.
- ▶ Mae'r bwrdd iechyd (Betsi Cadwaladr) wedi penodi Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg
- ▶ Er mwyn ymgorffori newid, mae rhanbarth Gogledd Cymru wedi datblygu rhaglen datblygu dysgu proffesiynol gynhwysfawr i gefnogi ymarferwyr drwy
 - gwella eu hymwybyddiaeth i fodloni gofynion Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (18)
 - cyrchu cyfleoedd hyfforddi a datblygu i fodloni gofynion Deddf ADY a'r Tribiwnlys Addysg (18)

Crynodeb o amcanion y diwygiadau ADY

- ▶ Y Ddeddf i fod yn gymwys i rai 0-25 oed
- ▶ ADY i gymryd lle'r term AAA
- ▶ Cynllun statudol unedig – y cynllun datblygu unigol
- ▶ Plant a phobl ifanc yn cymryd mwy o ran [arfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn]
- ▶ Dyheadau uchel a gwell deilliannau
- ▶ System symlach, llai gwrthwynebus
- ▶ Mwy o gydweithredu
- ▶ Osgoi anghytundeb a datrys anghydfod yn gynt
- ▶ Hawliau apêl clir a chyson
- ▶ Y Cod
- ▶ System ddwyieithog

Y Prif Negeseuon i ddylanwadu ar arfer

Arweinyddiaeth:

- Ethos, diwylliant ac arfer cynhwysol
- Arweinyddiaeth gryf, clir a phwrpasol
- Dyheadau uchel i bob disgybl

Darpariaeth:

- Dealltwriaeth drylwyr o anghenion disgyblion
- CDU/CAU sy'n seiliedig ar ddealltwriaeth gadarn o'r disgybl ac a fydd yn cynnwys barn disgyblion, rhieni ac eraill
- Addasu'r cwricwlwm ac adnoddau fel eu bod yn cyfateb yn dda i'r disgyblion
- Ystod eang o systemau ar gael i gefnogi dysgu a lles
- Cyswllt a chefnogaeth reolaidd i rieni / gofalwyr

Safonau:

- Disgyblion â chymhelliant uchel sy'n ymwneud â dysgu
- Cynnydd mewn dysgu – cyrhaeddiad a llwyddiant
- Systemau olrhain cynhwysfawr

Crynodeb

- ▶ Cymerwch funud i wyllo'r fideo byr hwn sy'n crynhoi'r hyn sy'n digwydd gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol yng Nghymru.
- ▶ <https://youtu.be/jtmk2lwpFsQ>

Gwybod Mwy
Arlein

<https://llyw.cymru/rhaglen-trawsnewid-system-anghenion-dysgu-ychwanegol-cyflwyniad>

Twitter

#AnghneionDysguYchwanegol #ADYCymru #DeddfADY

Manylion Cyswllt

▶ Helen Smith

helen.smith@denbighshire.gov.uk

▶ Tîm Trawsnewid ADY

TrawsnewidADY@gwegogledd.cymru